

William Morgan, 1545–1604

Esgob, a chyfieithydd y Beibl Cymraeg cyntaf

Gellir dweud yn bur sicr mai un o'r prif resymau pam y mae'r iaith Gymraeg wedi goroesi hyd heddiw yw'r gwaith arloesol a gyflawnwyd gan rai megis William Morgan wrth gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Prif fwriad William Morgan wrth wneud hyn oedd rhoi'r Efyngyl Gristnogol i'w bobl yn eu hiaith eu hunain, ond sgil-effaith hynny oedd gosod y Gymraeg ar seiliau cadarn fel un o ieithoedd blaengar Ewrop.

Ganed William Morgan yn y Tyddyn Mawr, Blaen Wybrnant, Plwyf Penmachno, nid nepell o Betws-y-coed, Dyffryn Conwy. Roedd yn fab i John ap Morgan ap Llywelyn, tenant ar stad Gwydir, a'i wraig Lowri, merch William ap John ap Madog. Gallai ei rieni olrhain eu hachau yn ôl i "hen lwythau brenhinol Gwynedd". Derbyniodd ei addysg gynnar gan hen fynach cyn mynd i Goleg Sant Ioan, Caergrawnt, ym 1565. Coleg oedd hwn a roddai bwyslais arbennig yn y cyfnod hwnnw ar y tair iaith glasurol, sef Hebraeg, Groeg a Lladin. Bu yn y coleg am gyfnod hirfaith o tua pymtheng mlynedd gan ennill graddau BA, MA, BD, a DD, ac mae cofeb fechan iddo ar wal eglwys y coleg. Yn y coleg hefyd daeth o dan ddylanwad yr ysgolhaig Hebraeg enwog John Immanuel Tremellius, a thalodd hynny ar ei ganfed yn ddiweddarach. Ordeiniwyd ef ym 1568 gan esgob Elai, ac fe'i penodwyd yn ficer Llanbadarn Fawr ym 1572, ac i ficeriaeth y Trallwng a rheithoriaeth Dinbych ym 1575. Roedd hi'n hen arfer penodi myfyrwyr i fywoliaethau eglwysi er mwyn eu cynnal ar gwrs yn y coleg. Wedi gadael y coleg cafodd ei sefydlu yn ficer Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llanarmon Mynydd Mawr ym 1578. Ym 1579 fe ddaeth i gysylltiad ag Archegob Whitgift, a fu'n gefn mawr iddo yn y gwaith o gyfieithu'r Beibl.

Mae'n ddigon posibl iddo gychwyn ar y gwaith o gyfieithu cyn iddo adael Caergrawnt, ond gwyddwn i sicrwydd mai yn Llanrhaeadr y gorffennodd ei waith aruthrol. Pan ddechreuodd y

gwaith o argraffu'r Beibl Cymraeg ym 1587 arhosodd am gyfnod yn Llundain i arolygu'r broses. Cyhoeddwyd y cyfieithiad ym 1588 ac fe'i cyflwynwyd i'r frenhines, Elisabeth I. Cyfrol ffolio o 1,122 o dudalennau mewn cloriau lledr ar bren oedd hi. Wrth gyfieithu bu rhaid iddo fathu geiriau Cymraeg newydd fel, 'arogldarth', 'caethglud', 'cerffdelw', 'cyntafanedig' a 'gwahanlen'. Ni ddaeth ymwneud/involment William Morgan â'r Beibl Cymraeg i ben ym 1588 oherwydd aeth ati'n syth i ddiwygio a chywiro'r gwaith ar gyfer argraffiad diweddarach a ymddangosodd wedi ei farwolaeth ym 1620 ac a gwblhawyd gan yr Esgob Richard Parry a'r Dr John Davies, Mallwyd. Bu'r y gwaith hwn yn gam pwysig yn natblygiad llenyddiaeth Gymraeg ac yn un o'r prif resymau pam fod yr iaith wedi goroesi.

Penodwyd ef yn Esgob Llandaf ym 1595 ac yno paratôdd adargraffiad diwygiedig o'r Llyfr Gweddi. Symudwyd ef ym 1601 i Lanelwy, esgobaeth oedd ychydig yn gyfoethocach a bu farw ym 1604. Ar ei farwolaeth nid oedd digon o arian i dalu ei ddyledion a hynny'n bennaf oherwydd treuliau argraffu Beibl 1588. Priododd â Catherine ferch George, gweddw William Lloyd, ond ni chawsant blant.